# Pwyllgor Gwasanaethau Pobl

## 15 Ionawr 2025

**Yn Bresennol:** Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd M James, Dr R Plummer, Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams.

**Hefyd yn bresennol** : Joy Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), a Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

[Gadawodd y Cynghorydd C Williams y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 01/25, Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 11:10yb)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd C George a Mrs S Hoss.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Uwch Aelod Annibynnol dros Benodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

O ran Cam Gweithredu 1024, gofynnodd Aelod am i hyperddolenni gael eu cynnwys yn y golofn cynnydd yn y dyfodol lle bo'n briodol, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Yn dilyn trafodaeth flaenorol (Cam Gweithredu 1025), trafodwyd arfarniadau Llywodraeth Cymru (LlC) a drefnir ar gyfer Aelodau, a chwestiynwyd gwerth y broses. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod LlC yn monitro'r gyfradd ymateb i'r arfarniadau yn hytrach na gwerthuso eu cynnwys, a mynegodd yr Aelodau eu rhwystredigaeth ynglŷn â hyn. Mynegodd Aelod bryder bod ei data personol hi yn cael ei rannu gyda LlC pan nad oedd yn glir sut oedd y data yn cael ei brosesu, a chytunodd i rannu'r adborth hwn gyda LlC pan fo'n briodol.

**Nodwyd.**

## 5. Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar faterion yn ymwneud â chefnogi a datblygu Aelodau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am Adolygiadau Datblygiad Personol ac Arfarniadau Perfformiad Llywodraeth Cymru, Fframwaith Hunanwerthuso Cymorth i Aelodau Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Hyfforddiant, Sesiynau Hyfforddi LlC, a phresenoldeb Aelodau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Ffurflen Datblygiad Personol oedd wedi'i hadolygu, ac awgrymwyd bod rhestr wirio o'r hyfforddiant gorfodol yn cael ei chynnwys ynghyd â dolenni cyswllt i'r recordiad o'r sesiynau hyfforddiant. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Pobl bod yr Awdurdod yn y broses o gynnal dadansoddiad o'r anghenion hyfforddiant ar gyfer y staff a'r Aelodau er mwyn llunio rhestr o'r hyfforddiant gorfodol a pha bryd y byddai angen hyfforddiant gloywi. Cytunodd y swyddogion i gydweithio ar y mater er mwyn cyflwyno gwybodaeth bellach i'r Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

O ran y Fframwaith Hunanwerthuso, ailadroddodd y Cadeirydd rai o'r sylwadau yr oedd wedi'u hanfon drwy'r e-bost. Cytunwyd bod y Fframwaith yn fan cychwyn da ar gyfer gwerthuso Cymorth i Aelodau y gellid ei ddatblygu gan Awdurdodau unigol, a bod y sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu cyflwyno i CLlLC.

**Nodwyd.**

[Nid oedd y Cynghorydd M James yn bresennol drwy gydol yr eitem ganlynol]

## 6. Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, yr Adolygiad o'r Polisi Adnoddau Dynol, Data Hyfforddiant, Darparu Hyfforddiant, a Gwirfoddoli.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, ac mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o oblygiadau cyffredinol yr adolygiad o ran costau. Cadarnhawyd y byddai adroddiad cryno o'r adolygiad yn cael ei baratoi unwaith y byddai'r broses apelio wedi dod i ben, ac y byddai'r adroddiad hwn yn amlinellu manylion megis y gwersi a ddysgwyd a'r costau. Rhoddwyd crynodeb o'r amserlen apeliadau.

Dywedwyd bod absenoldeb salwch yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus gan y tîm a bod y cynnydd mewn absenoldeb salwch tymor byr yn amlygu'r norm tymhorol o ran cyflyrau tymhorol megis annwyd, ffliw a heintiau anadlol. Gofynnodd Aelod am gael cymhariaeth o'r cyfraddau absenoldeb salwch â'r

flwyddyn flaenorol a chytunodd y Swyddog i gynnwys y wybodaeth hon mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor y mathau o fesurau oedd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad, a rhoddodd Aelod awgrymiadau am fesurau ar gyfer gwirfoddoli, a nododd nad oedd dosbarthiad ethnigrwydd y staff yn amrywiol iawn. Nododd y Swyddog yr awgrymiadau hyn a chadarnhaodd bod y tîm wrthi'n ceisio gwella'r broses o gasglu data o fewn yr Awdurdod i sicrhau bod data llawn gwybodaeth yn cael ei gasglu yn y modd mwyaf effeithlon. Roeddent hefyd yn gweithio gyda'r Arweinydd Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i edrych ar ddulliau’r Awdurdod o gyfleu negeseuon.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys data hyfforddiant, a nododd yr Aelodau bod y gyfradd cwblhau’r Hyfforddiant ar Ddiogelu Data a Seiberddiogelwch yn is na chyrsiau eraill. Cadarnhaodd y Swyddog bod hyn oherwydd bod y modiwlau hyn ar system hyfforddi ar wahân. Ychwanegwyd bod y tîm yn gweithio gyda'r adrannau TG a Chydymffurfiaeth i weld a ellid cael pob hyfforddiant ar yr un platfform.

**Nodwyd*.***

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025 heb eu diwygio. |